Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 17 Hydref 2013**

Amser:
**13:30**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Policy: Siân Phipps**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8582
Pwllygor.Menter@cymru.gov.uk

## Agenda

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15: Addysg Uwch a Sgiliau (13.30-14.30) (Tudalennau 1 - 24)

Tystion:

- Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Ken Skates AC, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg
- Owen Evans, Cyfarwyddwr, yr Adran Addysg a Sgiliau
- Neil Surman, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Addysg Uwch
- Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr, Isadran Addysg Bellach a Phrentisiaeth

Dogfennau ategol:

**EBC(4)-38-13(p1)** – Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog ynghylch craffu ar Gyllideb 2014-15: Addysg Uwch a Sgiliau

**EBC(4)-38-13(p2)** – Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru: Addysg Uwch a Sgiliau

### 3 Papurau i'w nodi

**Ôl-drafodaeth (preifat) (14.30 - 14.50)**

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
**Enterprise and Business Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Huw Lewis AM
Minister for Education and Skills
Welsh Government

5 August 2013

Dear Minister

**Budget scrutiny 2014-15: higher education and skills**

In order to inform our budget scrutiny session on the higher education and skills portfolio on 17 October, I thought it would be useful to set out some areas that we would like you and the Deputy Minister for Skills and Technology to include in your budget paper.

***Last year's budget report***

During last year's scrutiny of the Draft Budget 2013-14 the Committee welcomed the improvements made in the presentation and clarity of the Welsh Government's budget documents and the papers and annexes that Ministers and Deputy Ministers submitted to Assembly committees.

As was the case last year, the Committee would like to be provided with the individual Budget Expenditure Lines for your and the Deputy Minister's portfolios that are relevant to this Committee.

***Programme for Government commitments***

Regarding the Welsh Government's ability to deliver the Programme for Government commitments that are within your portfolios and relevant to the remit of this Committee, from within the current allocation, the Committee would like information in relation to:

- Details of the costs associated with the Programme for Government commitments and/or any work being undertaken to assess such costs;
- Whether these commitments are deliverable within the available portfolio budget and details of any areas where affordability is a concern; and
- Information relating to how the delivery of the commitments in your and the Deputy Minister's portfolios and their associated outcomes will be monitored and evaluated to demonstrate value for money.

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Clerc/Clerk: Dr Siân Phipps, Ffôn /Tel: 029 2089 8582
E-bost /Email:enterprise.committee@wales.gov.uk

### *Key policies*

Following on from our scrutiny of the draft budget last year, the Committee would particularly like to receive information on: work-based learning (and specifically apprenticeships); higher education student support; higher education generally and specifically reconfiguration (including details of any savings) and Welsh medium provision; support for young people who are not in education, employment or training; and Careers Wales. Other policy areas of interest to the Committee include: skills strategies; workforce skills development; and Jobs Growth Wales.

For each policy, as appropriate, the Committee would like to see:

- Details of the costs and/or any work being undertaken to assess the cost of delivering these policies;
- Information relating to how the delivery of the policy, and its associated outcomes will be monitored and evaluated to demonstrate value for money.

## *Preventative Spending*

We are interested in considering preventative spending as part of our scrutiny of the Draft Budget 2014-15. The definition of preventative spending that is being adopted for this purpose is: *…spending that focuses on preventing problems and eases future demand on services by intervening early, thereby delivering better outcomes and value for money.*

With this definition in mind we would like information on:

- The proportion of the education and skills budget allocated to preventative spending measures;
- Details of which specific policies or programmes in the education and skills aspects of your portfolios, relevant to the remit of this Committee, are intended to be preventative; and
- How the value for money of such programmes is evaluated, with a particular focus on what the specific inputs and intended outcomes are.

## *Provision for Legislation*

The Committee would also like to see:

- Information on the extent to which any Welsh legislation that has been passed, is currently being passed or is planned in the legislative programme is likely to have any direct or indirect impact on the education and skills aspects of your and the Deputy Minister's portfolios in the 2014-15 financial year, for example, the implementation of the *Learning and Skills Wales (Measure) 2009*, the *Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill* and the planned *Higher Education (Wales) Bill*.

- Information on the impact on the budget of any UK legislation in the portfolio area.

With many thanks

Yours sincerely

Nick Ramsay AM
Chair, Enterprise and Business Committee

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**

**Dyddiad:** **17 Hydref 2013**

**Amser:** **13:30-14:30**

**Lleoliad:** **Senedd**

**Teitl:** **Cyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau 2014-15**

## Diben

1. Darparu papur tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes ar y gyllideb Addysg a Sgiliau, blaenoriaethau ar gyfer 2014-15 a'r newyddion diweddaraf ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

## Yr Amserlen

2. Cyhoeddwyd y gyllideb ddrafft ar 8 Hydref 2013.

## Cyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau 2014-15

3. Mae Cyllideb Ddrafft 2014-15 yn cynnig cynllun dwy flynedd ar gyfer buddsoddi yn y ddarpariaeth addysg a sgiliau yng Nghymru. Yn Nhabl 1 ceir trosolwg o'r gyllideb sydd wedi'i chynllunio ar gyfer Addysg a Sgiliau sef y 'Prif Grŵp Gwariant' (MEG). Hefyd, mae modd gweld y newidiadau i'r gyllideb ddangosol ers cyhoeddi Cyllideb Derfynol 2013-14, i adlewyrchu newidiadau sylfaenol rheolaidd i Gyllideb Atodol Gyntaf 2013-14.

*Tabl 1: Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau*

| | 2013-14<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2013<br>£000 | 2014-15<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Ailddatgan)<br>£000 | 2014-15<br>Newidiadau<br>£000 | 2014-15<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| DEL Adnoddau | 1,658,658 | 1,696,489 | -77,565 | 1,618,924 | 1,564,094 |
| DEL Cyfalaf | 202,134 | 153,834 | 0 | 153,834 | 143,834 |
| **Cyfanswm DEL** | **1,860,792** | **1,850,323** | **-77,565** | **1,772,758** | **1,707,928** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 176,869 | 183,149 | 30,935 | 214,084 | 237,862 |
| **Addysg a Sgiliau** | **2,037,661** | **2,033,472** | **-46,630** | **1,986,842** | **1,945,790** |

4. O gymharu â'r cynlluniau dangosol sydd wedi eu hail-ddatgan yng Nghyllideb Derfynol 2013-14, mae cyfanswm y DEL Adnoddau sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer Addysg a Sgiliau wedi lleihau £77.6 miliwn neu 4.6.%. Mae'r lleihad hwn yn cynnwys trosglwyddiad rheolaidd o £28.6 miliwn i'r Grant Refeniw a Chynhaliaeth o fewn Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol, ar gyfer y ddarpariaeth AAA ôl-16 mewn ysgolion prif

ffrwd (£4.2 miliwn), ac ysgolion arbennig ôl-16 a lleoliadau AAA y tu allan i'r sir (£24.2 miliwn). Y cynllun dangosol ar gyfer DEL Adnodd 2015-16 sy'n cael ei gyhoeddi am y tro cyntaf yw £1,564.1 miliwn.

5. Nid oes newid i'r gyllideb gyfalaf o'r cynlluniau blaenorol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2013-14, sef £153.8 miliwn yn 2014-15. Mae hyn yn cynnwys y £10 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2013-14 i gynorthwyo gyda darparu campws newydd ar gyfer Addysg Bellach ôl-16 yng Nghaerdydd. Y gyllideb gyfalaf ddangosol ar gyfer 2015-16 yw £146.8 miliwn.

6. Mae’r mwyafrif o’r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ymwneud â benthyciadau myfyrwyr, sy’n dibynnu ar y galw amdanynt ac sy'n sensitif i gyfraddau llog a ffactorau macro-economaidd eraill ac felly yn anodd i’w rhagweld. Cytunir y gyllideb hon gyda’r Trysorlys bob blwyddyn a chyllidir hi’n llawn. Mae’r gyllideb yn cynyddu £24.9 miliwn yn 2014-15, gyda chyllideb ddangosol o £231.9 miliwn ar gyfer 2015-16. Mae yna £6m pellach ar AME ar gyfer 2014-15 and 2015-16 sydd yn ymwneud ac addasiad phensiynau Gyrfa Cymru, a ddaeth yn is-gwmni sydd yn eiddo gyfan gwbl Llywodraeth Cymru o 1 Ebrill 2013.

7. Cafodd y camau gweithredu o ran cynlluniau y gyllideb ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgilau eu cyhoeddi ar 8 Hydref. Er mwyn cynorthwyo gyda thryloywder, darperir dadansoddiad o'r newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb yn Atodiad 1.

**Cyd-destun y Gyllideb**

8. Mae’r gyllideb hon yn digwydd yng nghyd-destun y cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU yn ei hadolygiad diwethaf ar wariant, yn ogystal â blaenoriaethu'r cyllid ar draws portffolios, tra'n cynllunio i gyflawni’r ymrwymiadau a wnaethpwyd yn y Rhaglen Lywodraethu yn ogystal â chyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol. Mae'r holl benderfyniadau sy'n ein hwynebu'n rhai anodd. Nid oes atebion hawdd ac ac nid oes unrhyw ffordd inni warchod gwasanaethau rhag effaith y toriadau gan Lywodraeth y DU a goblygiadau blaenoriaethu'r gwariant.

9. Rydym wedi cynnal adolygiad fesul llinell o gyllidebau i sefydlu sut y mae modd rheoli'r gostyngiadau o £83.9 miliwn yn 2014-15 a £103.9 miliwn yn 2015-16. Er bod penderfyniadau anodd wedi gorfod cael eu gwneud, mae'r adolygiad wedi ei osod yng nghyd-destun y sylw parhaus ar ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, ac mae wedi'i lunio o amgylch y tri thema trawsbynciol ym maes cyflenwi, sef Swyddi a Thwf; Cyrhaeddiad Addysgol a Chefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig.

10. Mae cydraddoldeb wedi bod yn elfen ganolog o'n cynlluniau i ddatblygu gwariant, ac, fel yn y gorffennol, mae'r newidiadau o ran y cyllido sy'n deillio o'r gyllideb hon wedi'u hasesu yn erbyn eu heffaith ar bobl sydd â nodweddion sy'n cael eu diogelu. Rydym wedi ystyried ein

hymrwymiadau o dan Gynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru.

11. Mae ein cynlluniau gwariant wedi ystyried hefyd yr effaith ar dlodi, y Gymraeg, a hawliau plant yn unol â'r CCUHP a chynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol prosiectau a rhaglenni. Rydym wedi sicrhau bod polisïau a rhaglenni yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, drwy ystyried buddsoddiad y gallwn bellach ei wneud er mwyn rhwystro camau drutach yn y dyfodol.

**Y Rhaglen Lywodraethu**

12. Mae gan yr Adran Addysg a Sgiliau bum amcan strategol sy'n cefnogi'r canlyniadau yn y Rhaglen Lywodraethu:

- Codi safonau y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant, cyrhaeddiad a seilwaith ledled Cymru fel bod modd i bawb gyrraedd eu potensial;
- Darparu gweithlu medrus gyda chyfleoedd da i bob dysgwr gyfrannu at greu twf a swyddi;
- Cefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i wella lles drwy leihau anghydraddoldeb a chynyddu cyfraniadau;
- Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru; a
- Bod yn adran sy'n perfformio'n dda ac yn gyflogwr delfrydol.

13. O ystyried yr hinsawdd economaidd presennol a'r gostyngiadau sy'n cael eu hwynebu ar hyn o bryd, mae'n hanfodol ein bod yn glir o ran ein blaenoriaethau, a bod penderfyniadau ym maes gwariant yn cefnogi ein hamcanion. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn pennu y canlyniadau yr ydym yn gweithio tuag atynt, ac mae'r penderfyniadau yn ein cyllideb ddrafft yn sicrhau bod ein cynlluniau gwariant yn parhau yn gyson â'r nod o gyflawni ein hymrwymiadau. Mae map o'n Camau tuag at Is-Ganlyniadau wedi'i gyhoeddi fel rhan o ddogfennau'r Gyllideb Ddrafft. Mae Adroddiad Blynyddol diweddaraf y Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013, yn rhoi'r newyddion diweddaraf am y camau yr ydym yn eu cymeryd i gefnogi ein blaenoriaethau. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad yn erbyn ymrwymiadau y Rhaglen Lywodraethu fel rhan o'r broses o gofnodi blynyddol, i sicrhau bod canlyniadau cysylltiedig yn cael eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.

14. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn cyfrannu at nifer o feysydd o fewn y Rhaglen Lywodraethu, ond yn bennaf tuag at Dwf a Swyddi Cynaliadwy (pennod 1), Addysg (pennod 3) a Diwylliant a Threftadaeth Cymru (pennod 12). Mae crynodeb o newidiadau i'r gyllideb ddrafft yn unol â Chamau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn wedi'u darparu isod, yn ogystal â chostau a'r effaith gysylltiedig ar ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

**Twf a Swyddi**

15. Mae datblygu addysg a sgiliau yn bwysig i ragolygon swyddi pobl, ac yn wir eu lles yn gyffredinol. Rydym wedi ymrwymo o hyd i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod pobl Cymru yn cael y cyfleoedd addysg a hyfforddiant i wneud y gorau o'u rhagolygon am swyddi yn y dyfodol. Mae Twf Swyddi Cymru, Hyfforddeiaethau, a Phrentisiaethau yn ffyrdd amlwg o annog pobl ifanc ac oedolion i ddatblygu sgiliau, ac mae'r rhaglenni hyn hefyd yn allweddol o ran ein hymrwymiad i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

***Llinell Wariant y Gyllideb ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogi Ieuenctid***

| 2013-14 Cyllideb Atodol Mehefin 2013 £000 | 2014-15 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Ailddatgan) £000 | 2014-15 Newidiadau £000 | 2014-15 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 | 2015-16 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|---|---|
| 19,746 | 19,746 | (1,000) | 18,746 | 19,746 |

16. Mae'r gyllideb ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn 2014-15 wedi lleihau £1 miliwn yn nhermau net o gymharu â 2013-14. Cafwyd arbedion drwy ailflaenoriaethu y buddsoddi mewn ymrwymiadau cyflenwi allweddol.

17. Mae'r Llinell Wariant yn canolbwyntio ar ein hymrwymiad i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a chynorthwyo pobl ifanc i gael gwaith. Gan ystyried hyn, mae blaenoriaeth wedi'i roi i ddiogelu'r gwariant ar Twf Swyddi Cymru, cyflawni y Rhaglen Lywodraethu a Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, ac ymrwymiadau i fynd i'r afael â phobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant drwy'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

18. Mae'r pwysau newydd sy'n codi o ddatblygu a gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid wedi cael eu hystyried drwy sicrhau arbedion effeithiolrwydd pellach o ran gwariant ar y Prosiect Gwybodaeth am y Farchnad Lafur a'r bwriad i ddirwyn prosiectau bychain penodol tymor byr i ben.

19. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn adeiladu ar lwyddiant y Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid drwy ddod â phrif elfennau y broses o leihau yn effeithiol nifer y bob nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth gyda'i gilydd mewn un lle. Mae cynllun gweithredu dwy flynedd ar gyfer y fframwaith wedi'i chyflwyno drwy Ddatganiad Llafar i'r Cyfarfod Llawn ar 1 Hydref.

20. Mae **rhaglen Twf Swyddi Cymru yn un o'n haddewidion Pump am Ddyfodol Tecach ac yn un o brif ymyriadau y cynllun gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.** Er mwyn cydnabod y pwysigrwydd yr ydym yn ei roi

i'r rhaglen hon rydym wedi diogelu cyllid ar y lefelau presennol. Mae cyfanswm o £12.5 miliwn wedi'i ymrwymo i 2014-15 a 2015-16. Caiff y cyllid hwn gymorth arian cyfatebol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

21. Yn ei flwyddyn gyntaf, bu i Twf Swyddi Cymru fynd dros ei darged o 4,000 o gyfleoedd ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 mlwydd oed, gyda bron i 6,000 o gyfleoedd am swyddi wedi'u creu gan dros 3,000 o gyflogwyr, a 4,042 o bobl ifanc wedi'u cyflogi. Mae'r rhaglen yn perfformio'n dda a dengys arwyddion cynnar bod 76% (ym mis Gorffennaf 2013) o bobl ifanc sy'n cwblhau eu cyfle am swydd am 6 mis yn parhau mewn swydd neu'n mynd ymlaen i brentisiaeth. Mae Twf Swyddi Cymru yn gweithio, ac mae'n gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl ifanc. Ein blaenoriaeth pennaf yn ystod y cyfnod economaidd heriol hwn yw gweithio dros bobl Cymru, creu swyddi a sicrhau ffyniant.

22. Mae'r Llinell Wariant yn ariannu nifer o grantiau i gefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yng Nghymru. Cafodd y cyllid ychwanegol hwn ei alinio i ganiatáu cyflawni'r strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Ieuenctid 2007-2010. Mae'r strategaeth hon yn cael ei disodli bellach ac mae'r lefelau cyllido diwygiedig cysylltiedig fel a ddiffiniwyd mewn cyllidebau arfaethedig, i gynorthwyo gyda datblygu strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gwaith Ieuenctid (i'w chyhoeddi ym mis Tach/Rhag 2013). Mae'r strategaeth newydd a datblygiad ehangach y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn creu cyd-destun newydd ar gyfer buddsoddi ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn y gwasanaeth ieuenctid, sy'n uwch na'r dyraniad a nodwyd fel rhan o'r Grant Setliad Refeniw.

***Y Rhaglen Lywodraethu:***

23. Rydym wedi ymrwymo i adnewyddu ein strategaeth gwasanaeth ieuenctid a chadw at ein hymrwymiad i ddarparu cyllid i o leiaf y lefelau a ddarparwyd gennym yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn dilyn cyhoeddi strategaeth newydd ac yn erbyn y dystiolaeth y gallai Awdurdodau Lleol resymoli yn llawn eu dyraniadau Grant Setliad Refeniw i gefnogi gwasanaethau ieuenctid, mae cyllideb ddiwygiedig o £3.23 miliwn ar gyfer grantiau gwasanaethau ieuenctid yn gysylltiedig â'r ymrwymiad hwn ar gyfer 2014-15. Y bwriad yw cynnal lefel y cymorth grant i wasanaethau ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru. Caiff grantiau eu monitro yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.

24. Mae'r Llinell Wariant yn parhau i gefnogi gwaith y Prosiect Gwybodaeth am y Farchnad Lafur sy'n helpu i sicrhau bod gwybodaeth allweddol am y galw a'r ddarpariaeth sgiliau ar gael i randdeiliaid (drwy'r Arsyllfa Dysgu a Sgiliau), i ddarparwyr dysgu, ac i bobl ifanc (drwy Gyrfa Cymru.com). Mae'r prosiect hwn yn cyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddarparu gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur i helpu unigolion wneud dewisiadau deallus am y ddarpariaeth addysgol.

***Gwariant ataliol:***

25. Mae’r buddsoddiad drwy’r Llinell Wariant hon yn ataliol ar y cyfan: mae’r Llinell Wariant o gymorth i rwystro ymddieithrio (drwy’r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid) a’r costau hirdymor sy’n deillio o ddiweithdra ieuenctid (drwy Twf Swyddi Cymru), megis iechyd a gwasanaethau cymorth eraill.

## Llinell Wariant Gyrfa Cymru:

| 2013-14 Cyllideb Atodol Mehefin 2013 £000 | 2014-15 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Ailddatgan) £000 | 2014-15 Newidiadau £000 | 2014-15 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 | 2015-16 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|---|---|
| 30,000 | 30,000 | 500 | 30,500 | 27,000 |

26. Mae cyllideb Gyrfa Cymru yn cynyddu £0.500 miliwn yn nhermau net o gymharu â 2013-14 ac yn lleihau £3 miliwn yn 2015-16. Mae'r cyllid ychwanegol sy'n cael ei ddyranu i'r gyllideb hon yn 2014-15 wedi cynnwys datblygu gwefan Gyrfa Cymru.com i ddarparu gwasanaeth gyrfaoedd ar gyfer yr 21ain ganrif, ac mae wedi darparu cymorth ychwanegol ar gyfer cynllun gweithredu y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

27. Mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ddarparu gwasanaethau cyngor a chyfarwyddyd ar yrfaoedd. Darperir yr wybodaeth hon drwy'r cyllid grant sy'n cael ei ddarparu i Dewis Gyrfa (CCDG). Mae'r blaenoriaethau ar gyfer 2014-15 yn parhau heb newid llawer gyda rhagor o fireinio a sefydlu gwasanaeth gwahaniaethol newydd (gan gynnwys swyddogaeth Gyrfa Cymru wrth hwyluso cysylltiad cyflogwyr ag ysgolion). Mae'r model cyflenwi gwasanaeth gwahaniaethol yn rhoi mwy o gyfle i Dewis Gyrfa weithredu.

28. Er mwyn addasu ar gyfer y lleihad arfaethedig yn y gyllideb yn 2015-16, bydd angen i'r cylch gwaith ar gyfer Dewis Gyrfa gael ei adolygu'n sylweddol. Y flaenoriaeth gyntaf yw sicrhau bod gwasanaethau gyrfaol statudol i bobl ifanc mewn ysgolion ac addysg bellach yn cael eu cynnal. Bydd yr adolygiad o wasanaethau oedolion yn helpu i lywio penderfyniadau ar flaenoriaethau mewn gwasanaethau yn 2015-16. Mae graddfa'r arbedion yn ymestyn y tu hwnt i'r hyn y gellir ei gyflawni drwy arbedion effeithiolrwydd, a bydd yn galw am ail-ddiffinio pellach o'r gwasanaethau i grwpiau penodol o gleientiaid (e.e. oedolion) y tu hwnt i'r hyn a gyflwynwyd o fewn cylch gwaith 2013.

### *Y Rhaglen Lywodraethu:*

29. Nid oes unrhyw ymrwymiadau o dan y llinell gwariant hon. Fodd bynnag, mae Gyrfa Cymru yn canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n cynnwys cynyddu cyfran y bobl ifanc sydd mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae Gyrfa Cymru yn bartner strategol allweddol wrth

gyflawni'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid sydd â swyddogaeth ganolog o ran bodloni'r targed ar gyfer lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, sy'n cael ei bennu yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

**Gwariant ataliol :**

30. Mae £25 miliwn o'r gyllideb hon wedi'i dyrannu i fesurau gwariant ataliol. Mae'r llythyr cylch gwaith presennol a'r blaenoriaethau ar gyfer CCDG yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc. Mae hyn yn golygu gwariant "ataliol" gan bod buddsoddiadau mewn gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Gyrfaoedd yn arwain at benderfyniadau doethach a datblygiadau llwyddiannus.

31. Mae CCDG yn darparu adroddiadau perfformiad chwarterol i Lywodraeth Cymru ac mae'r cadeirydd yn uniongyrchol gyfrifol i Weinidogion Cymru am ddarparu Gwasanaeth Gyrfaoedd effeithiol ac effeithlon yng Nghymru.

## *Llinell Wariant Dysgu Seiliedig ar Waith*

| 2013-14<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2013<br>£000 | 2014-15<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Ailddatgan)<br>£000 | 2014-15<br>Newidiadau<br>£000 | 2014-15<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| 126,608 | 126,608 | (7,300) | 119,308 | 121,308 |

32. Mae'r gyllideb ar gyfer Dysgu'n Seiliedig ar Waith yn lleihau £7.3 miliwn yn 2014-15 yn nhermau net o gymharu â 2013-14 a £5.3 miliwn yn 2015-16. Mae'r gyllideb yn cynnwys cyllid ar gyfer prentisiaethau o bob oedran, y rhaglen recriwtiaid newydd a hyfforddeiaethau i bobl ifanc. Mae'r gostyngiadau o ganlyniad i ddod â'r rhaglen Barod am Waith i ben o fis Ebrill 2014, sydd i gael ei disodli gan fentrau sy'n cael eu datblygu a'u cyllido drwy'r Llinell Wariant Cyflogaeth a Sgiliau. Ar ben hynny, bydd y gostyngiadau yn y gyllideb yn golygu lleihad yn nifer y cyfleoedd am hyfforddiaethau mewn sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth. Mae gostyngiad hefyd o £0.3 miliwn o gynlluniau a gyhoeddwyd eisoesl oherwydd trosglwyddo cyllid i gefnogi gweithgarwch NIACE i'r Llinell Wariant Datblygu Polisïau AB. Bydd yn cael effaith ar rai ymrwymiadau y Rhaglen Lywodraethu e.e. darparu sgiliau ar gyfer cyflogaeth, cefnogi'r economi a busnes. Er hynny, mae hyfforddiaethau yn rhaglen bwysig sy'n cynorthwyo gyda dysgu pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, sy'n flaenoriaeth yn y Rhaglen Lywodraethu, a bydd cyfyngu arnynt.

***Prentisiaethau***

33. Yng Nghyllideb Derfynol 2013-14, cyhoeddwyd buddsoddiad ychwanegol gennym o £20 miliwn yn 2013-14, 2014-15 ac rydym yn ehangu'r ymrwymiad hwn i 2015-16 i gefnogi prentisiaethau yng Nghymru. Mae'r dyraniadau ychwanegol yn adeiladu ar ein hymrwymiad i weld datblygiad ar bob lefel prentisiaeth, gan gynnwys nifer mwy o leoedd ar lefel 2 a 3 (£7.1 miliwn yn 2014-15), llawer mwy o bwyslais ar brentisiaethau uwch (oddeutu £6.9 miliwn yn 2014-15), Recriwtiaid Newydd (oddeutu £10.7 miliwn yn 2014-15) a phrentisiaethau'r Gymraeg (amcangyfrif o £1.3 miliwn yn 2014-15). Mae hyn yn dangos y pwyslais a roddir ar raglenni prentisiaeth yng Nghymru.

34. Mae ein cefnogaeth i Brentisiaethau hefyd yn ymyrraeth allweddol yn nhermau cefnogi twf. . Mae gwaith ymchwil diweddar gan y Ganolfan Economeg ac Ymchwil Busnes yn rhagweld bod person sy'n cwblhau Prentisiaeth, ar gyfartaledd, yn cynyddu cynhyrchiant busnes £214 yr wythnos. Ym mis Ionawr 2012, daeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r casgliad bod cyflogau unigolion sydd â phrentisiaethau uwch bellach 18% yn uwch, tra bo cyflogau'r rhai sydd â phrentisiaethau canolradd 11% yn uwch (o gymharu â pherson heb brentisiaeth, cymhwyster cyfwerth neu gymhwyster uwch). Mae hyn yn golygu enillion o £21 ac £16 yn y drefn honno am bob £1 o wariant cyhoeddus.

35. Mae Llywodraeth Cymru yn credu mewn Prentisiaethau yng Nghymru, ac yn eu cefnogi, gan eu bod yn paratoi ar gyfer sylfaen sgiliau hanfodol ein cenedl. Mae prentisiaethau yng Nghymru yn helpu i ysbrydoli llwyddiant yn yr unigolyn ac yn dod â manteision enfawr i'r gweithle.

36. Mae polisïau prentisiaeth yn seiliedig ar gefnogi busnesau sydd am dderbyn prentisiaethau gan bod y buddsoddiad yn arwain at weithlu medrus sy'n gallu cyfrannu at dwf economaidd drwy gynhyrchiant uwch a gwell cyflogadwyedd.

***Y Rhaglen Lywodraethu:***

37. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn pennu ein hymrwymiad i fynd i'r afael â diweithdra ieuenctid ac i gynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau i bobl ifanc ledled Cymru. Mae darparu prentisiaethau o ansawdd uchel yn rhan sylfaenol o'n strategaeth i wella sgiliau gweithwyr yng Nghymru. Yn y Gyllideb Derfynol 2013-14, cyhoeddwyd buddsoddiad ychwanegol o £20 miliwn ar gyfer 2014-15 i gefnogi prentisiaethau yng Nghymru.

38. Mae cyflwyno olynydd i'r rhaglen Adeiladu Sgiliau fydd yn cynnig gwell cymorth, gan gynnwys hyfforddiant "ennyn diddordeb" i bobl ifanc sy'n wynebu'r rhwystrau gwaethaf i ddiweithdra, yn un o'r ymrwymiadau sydd wedi'u cyflawni o dan y gyllideb hon, gan bod y rhaglen olynol wedi'i chyflwyno.

39. Mae'r gyllideb hon wedi ymrwymo i ymestyn y rhaglen Recriwtiaid Newydd i ymateb i'r galw parhaus gan gyflogwyr a phobl ifanc, a'r gobaith yw y bydd 2700 o bobl ifanc yn manteision ar hyn dros y flwyddyn nesaf. Mae cost o £10.7 miliwn yn 2014-15 yn gysylltiedig â'r

ymrwymiad hwn. Caiff canlyniad yr ymrwymiad hwn o'r Rhaglen Lywodraethu ei fonitro drwy nodi sawl prentis gafodd eu cynorthwyo o dan y Rhaglen Recriwtiaid Newydd sy’n cwblhau'r fframwaith.

40. Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi’r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau ledled Cymru yn ddiweddarach eleni. Bydd y gwasanaeth hwn ar y we yn galluogi darpar brentisiaid i gofrestru, chwilio a gwneud cais am swyddi prentisiaid gwag. Bydd yn bosib i gyflogwyr gofrestru eu cwmnïau, cysylltu â darparwyr hyfforddi lleol a hysbysebu swyddi prentisiaid. Mae cost o £0.08 miliwn yn 2014-15 a £0.085 miliwn yn 2015-16 wedi'i gysylltu â'r ymrwymiad hwn. Caiff y defnydd o'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau ei fonitro'n fisol a caiff y ffigurau eu casglu ar feysydd megis nifer y swyddi gwag sy'n cael eu hysbysebu, nifer y trawiadau ar wefan y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau a nifer y ceisiadau am swydd ac ati.

***Gwariant Ataliol:***

41. Mae holl gyllideb y Llinell Wariant Dysgu Seiliedig ar Waith yn cael ei hystyried yn un ataliol. Y rheswm am hyn yw bod prentisiaethau yn darparu'r sgiliau i gystadlu'n fwy effeithiol yn y farchnad lafur; darparu gweithlu hynod fedrus i gyflogwyr a gwella lles unigolion. Caiff llwyddiant y prentisiaethau ei fesur gan nifer yr unigolion sy'n cyflawni fframwaith prentisiaeth. Caiff yr hyfforddiant ei fesur gan ddatblygiad llwyddiannus i gyflogaeth neu ddysgu pellach.

## Llinell Wariant Cyflogaeth a Sgiliau

| 2013-14 | 2014-15 | 2014-15 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Atodol Mehefin 2013 | Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Ailddatgan) | Newidiadau | Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft | Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft |
| £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 25,157 | 26,512 | (6,715) | 19,797 | 24,157 |

42. Mae'r gyllideb ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau yn gostwng £6.7 miliwn yn nhermau net yn 2014-15 a £1 miliwn yn 2015-16 o gymharu â 2013-14. Er gwaethaf y gostyngiadau hyn, mae cyllid yn cael ei fuddsoddi mewn rhaglenni hyfforddi gyda'r nod o *wella sgiliau ar gyfer cyflogaeth yng Nghymru*, gyda'r bwriad o gefnogi datblygiad a hyblygrwydd o fewn y gweithle. Bydd incwm ychwanegol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn sicrhau bod lefel y gweithgarwch yn cadw ar yr un lefel â'r blynyddoedd a fu. Rydym ar hyn o bryd yn datblygu ein cynlluniau i gynnig cymorth ar gyfer cyflogaeth a sgiliau o 2014, gan wneud y gorau o'r defnydd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop pan yn bosib. Bydd hyn yn ychwanegu at lwyddiant y rhaglenni cyfredol megis ReAct a'r Rhaglen Datblygu'r Gweithle. Er y bydd y toriadau yn y gyllideb yn gysylltiedig, yn rhannol, â rhaglenni sy'n cael eu rhestru o fewn y Rhaglen Lywodraethu, mae hyn yn rhan o raglen ehangach o newidiadau i gyflogaeth oedolion a

darparu sgiliau ac felly dylid ei ystyried o fewn cyd-destun polisi ehangach. Fodd bynnag, bydd angen mwy o flaenoriaethu ar y cymorth ar gyfer cyflogaeth a sgiliau i ganiatáu y gostyngiadau hyn, gyda mwy o bwyslais ar swyddi a thwf, yn hytrach na chanlyniadau cyflogadwyedd meddalach. Bydd angen hefyd sicrhau mwy o fuddsoddi ar y cyd o ran darparu sgiliau'r gweithlu. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi amlinelliad o'i sail ar gyfer blaenoriaethu y buddsoddi mewn sgiliau mewn Datganiad Polisi ar Sgiliau ym mis Rhagfyr 2013.

43. Bydd y newidiadau sy'n cael eu gwneud i gyflogaeth oedolion a darparu sgiliau yn golygu bod modd targedu'r ddarpariaeth yn fwy lleol ble y bo angen, ac ni fydd y gostyngiadau hyn felly yn cael effaith negyddol ar yr agenda dlodi sy'n gysylltiedig â chanlyniadau swyddi a thwf.

***Y Rhaglen Lywodraethu:***

44. Mae'r gyllideb hon yn cefnogi ymrwymiadau y Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â'r cymorth i gwmnïau angori ac anghenion hyfforddi penodol ar gyfer diwydiant, mynd i'r afael â llythrennedd a rhifedd yn y gweithle, ReAct a Cronfa Ddysgu Undebau Cymru.

***Gwariant Ataliol:***

45. Mae'r gyllideb hon yn ymateb i anghenion hyfforddi unigolion a chyflogwyr i gynorthwyo gyda mynediad i'r gweithle, aros mewn gwaith a datblygu o fewn y gweithle. Yn y ffordd hon, mae'n mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â sgiliau a chyflogadwyedd, sy'n rhwystro unigolion rhag cael mynediad i'r gweithle, aros mewn gwaith a datblygu o fewn y gweithle. Yn yr un ffordd, mae'n mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â sgiliau sy'n rhwystro cyflogwyr rhag gallu manteisio ar gyfleoedd ar gyfer twf neu addasu i amgylchiadau economaidd sy'n newid.

## Cyrhaeddiad Addysgol

***Llinell Wariant Darpariaeth Addysg Bellach:***

| 2013-14 | 2014-15 | 2014-15 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Atodol Mehefin 2013 | Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Ailddatgan) | Newidiadau | Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft | Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft |
| £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 451,531 | 455,732 | (42,201) | 413,531 | 414,319 |

46. Mae'r gyllideb ar gyfer y ddarpariaeth Addysg Bellach yn gostwng £42.2 miliwn yn 2014-15 o gymharu â chynlluniau a gyhoeddwyd eisoes. O'r gostyngiad hwn, mae £4.2 miliwn yn gysylltiedig â throsglwyddo'r ddarpariaeth AAA ôl-16 mewn ysgolion prif ffrwd a ddisgrifiwyd ym mharagraff 4 i'r Grant Cynnal Refeniw. Rydym wedi blaenoriaethu'r

ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-18 mlwydd oed, fydd yn cael ei ddiogelu. Felly bydd effaith y gostyngiadau sy'n weddill yn cael eu teimlo'n bennaf yn y ddarpariaeth ôl-19, sy'n cael ei darparu'n bennaf gan y Sefydliadau Addysg Bellach a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion. Mae'r ddarpariaeth ôl-19 yn rhoi cyfrif am oddeutu £160 miliwn o gyfanswm y gyllideb, felly mae gostyngiad o £37 miliwn yn cyfateb â gostyngiad o 23% yn y ddarpariaeth ôl-19.

47. Yn y gyllideb hon, rydym yn cydnabod pwysigrwydd addysg bellach yn yr ymgais i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant ac i gynyddu lefel sgiliau y bobl ifanc cyn iddynt ddechrau gweithio. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â'r sector i werthuso'r gwahanol opsiynau sydd ar gael ac i leihau effaith unrhyw leihad ar ddysgu.

***Y Rhaglen Lywodraethu:***

48. Mae cefnogaeth barhaus i ddatblygu dysgu yn y gymuned a dysgu oedolion gan gynnwys drwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru, a gwell llwybrau datblygu drwy sicrhau cydweithio rhanbarthol effeithiol rhwng sefydliadau AB ac AU yn ymrwymiad ar gyfer y gyllideb hon. Nid oes unrhyw gostau ar wahân yn gysylltiedig â'r ymrwymiad hwn, ond rydym yn disgwyl cydweithio rhanbarthol effeithiol rhwng sefydliadau AB ac AU drwy'r Agenda Drawsnewid.

***Gwariant Ataliol:***

49. Mae darparu addysg ar ôl addysg orfodol, i bobl 16-18 mlwydd oed yn cyfrif am oddeutu £300 miliwn o Linell Wariant y Ddarpariaeth Addysg Bellach ac mae'n cael ei ystyried yn ataliol. Er nad yw wedi'i gynllunio, gallai gostyngiadau sylweddol i'r dyraniad hwn arwain at gynnydd yn yr ystadegau ar gyfer pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a fyddai'n cael effaith uniongyrchol ar lwyddiant Cynllun Gweithredu y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

***Llinell Wariant Datblygu Polisïau AB:***

| 2013-14<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2013<br>£000 | 2014-15<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Ailddatgan)<br>£000 | 2014-15<br>Newidiadau<br>£000 | 2014-15<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| 666 | 666 | 400 | 1,066 | 1,066 |

50. Mae'r gyllideb ar gyfer Datblygu Polisi AB yn cynyddu £0.400 miliwn yn nhermau net o gymharu â 2013-14. Mae'r cynnydd yn gysylltiedig â throsglwyddo £0.300 miliwn o'r Llinell Wariant Dysgu yn Seiliedig ar Waith i ariannu gweithgarwch NIACE a throsglwyddo £0.100 miliwn ar gyfer datblygu sgiliau o ganlyniad i newidiadau strwythurol o fewn y Prif Grŵp Gwariant. Mae'r gyllideb yn cynorthwyo gyda buddsoddi mewn

costau ansawdd, ymgynghori a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16, cyllido datblygu polisi AB a chyllid grant NIACE Dysgu Cymru.

***Y Rhaglen Lywodraethu:***

51. Mae gan y gyllideb hon ymrwymiad i sicrhau bod llais y dysgwr yn ganolog wrth lunio penderfyniadau strategol mewn colegau AB. Mae cost o £0.128 miliwn yn 2014-15 a £0.024 miliwn yn 2015-16 yn gysylltiedig â'r ymrwymiad hwn. Mae canlyniadau'n cael eu gwerthuso yn erbyn y nodau a’r amcanion sydd wedi'u pennu ar gyfer y prosiect ar y cyd â'r contractwyr, tîm y prosiect, y grŵp llywio ac adborth gan ddarparwyr, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill.

***<u>Addysg Uwch</u>***

***Gwariant Ataliol:***

52. Mae cymorth i ddysgu uwch yn hollbwysig i ddyfodol Cymru. Mae Prifysgoilon yn cyfrannu £1.3 biliwn y flwyddyn i economi Cymru ac yn darparu dros 16,000 o swyddi yng Nghymru, tra'n cynhyrchu dros £400 miliwn y flwyddyn mewn buddsoddiadau allforio. Mae cymorth i fyfyrwyr ar gyfer dysgu uwch ar ffurf Grant Dysgu Llywodraeth Cymru o gymorth i dalu costau byw, ac mae'r Grant Ffioedd Dysgu o gymorth i dalu costau ffioedd ac wedi'i dargedu ar gyfer dyfarniadau megis y Lwfans Myfyrwyr Anabl neu'r Grant Gofal Plant sy'n creu cyfleoedd bywyd gwell i unigolion. Mae cymwysterau addysg uwch yn agor cyfleoedd am gyflogaeth ac mae'r dystiolaeth yn parhau yn gadarn am "bremiwm graddedigion" mewn perthynas â chyflogau ac enillion gydol oes graddedigion.

***Llinell Wariant Refeniw Addysg Uwch:***

| 2013-14<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2013<br>£000 | 2014-15<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Ailddatgan)<br>£000 | 2014-15<br>Newidiadau<br>£000 | 2014-15<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| 350,832 | 351,032 | (20,859) | 330,173 | 330,173 |

53. Mae'r gyllideb ar gyfer Refeniw Addysg Uwch yn gostwng £20.9 miliwn yn 2014-15 yn nhermau net o gymharu â 2013-14 ac yna'n parhau heb newid o gymharu â lefelau 2014-15 yn 2015-16. Mae'r lleihad yn gyfangwbl gysylltiedig â'r gostyngiad yn y cymorth i addysg uwch drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Er bod y gostyngiad hwn yn cymharu â chynlluniau a gyhoeddwyd yn y gorffennol, mae angen ystyried hyn o safbwynt sy'n cynnwys y sector i gyd, gan ystyried effaith fuddiol y cynllun newydd i gyllido addysg uwch ac i ariannu myfyrwyr a ddaeth i rym yn 2012, a'r adnoddau ychwanegol sylweddol sydd ar gael i Sefydliadau Addysg Uwch o ganlyniad i'r drefn gyllido newydd.

54. Bydd cyfanswm y cyllid fydd ar gael i'r sector AU yng Nghymru yn cynyddu o gymharu â'r model cyllido blaenorol o ganlyniad i'r drefn ffioedd dysgu newydd. Mae cylchlythyr cyllido diweddar CCAUC yn cadarnhau mai 13.8% yw'r cynnydd mewn cyllid ar gyfer sefydliadau AU yng Nghymru yn 2013-14. Mae'r modelu diweddaraf yn awgrymu y bydd yr incwm i'r sector yn parhau i gynyddu yn 2014-15 a 2015-16 (blynyddoedd academig) os yw'n bosib i sefydliadau yng Nghymru barhau i ddenu digon o fyfyrwyr.

55. Y Cyngor Cyllido fydd i reoli'r gostyngiadau rheolaidd o £20.9 miliwn ac i gyflawni gofynion y llythyr cylch gwaith Gweinidogol blynyddol ar sail llinell sylfaen is. Bydd yr effaith ar wariant a chynllun gweithredu CCAUC yn cael ei fonitro'n fanwl drwy gyfarfodydd bob chwarter gyda swyddogion a Gweinidogion.

56. Cynhaliwyd ymgynghoriad technegol yn ystod yr haf ar newidiadau deddfwriaethol arfaethedig fydd yn diwygio swyddogaethau rheoleiddio'r Cyngor i adlewyrchu'r sefyllfa newydd o ran cyllido. Bydd y Llywodraeth yn llunio deddfwriaeth newydd y flwyddyn nesaf i sicrhau bod gan CCAUC bwerau priodol i barhau i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â sicrwydd ariannol, sicrwydd ansawdd a rheoli ffioedd dysgu. Ni fydd unrhyw newidiadau i swyddogaethau CCAUC wedi'u sefydlu cyn blwyddyn academaidd 15-16 o leiaf.

57. Cafodd datganiad polisi newydd ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru ei gyhoeddi ym mis Mehefin. Mae yn adeiladu ar gryfderau'r sector ac yn pennu cyfres glir o flaenoriaethau, gan gynnwys cydweithio â busnesau er mwyn eu hysgogi i arloesi a thyfu'n economaidd, sicrhau bod graddedigion yn fwy cyflogadwy, cydweithredu â darparwyr addysg bellach i sicrhau bod cyfleoedd datblygu ar gael i bob dysgwr, a datblygu modelau darpariaeth mwy hyblyg er mwyn creu dyfodol mwy llwyddiannus a chynaliadwy.

**<u>Ad-drefnu</u>**

58. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn ein hymrwymiad i sicrhau llai o brifysgolion cryf; sy'n fwy cynaliadwy ac sydd â gwell offer i fodloni anghenion dysgwyr a'r economi yng Nghymru. Mae bellach yn amser i adeiladu ar lwyddiannau'r blynyddoedd diwethaf a chryfderau addysg uwch yng Nghymru. Golyga hyn symud ymlaen o'r agenda ad-drefnu sydd wedi dylanwadu'n gryf ar bolisïau yn ystod y ddegawd ddiwethaf. Mae'r adroddiad ar Ogledd-ddwyrain Cymru wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar. Mae swyddogion yn parhau i ystyried argymhellion yr adroddiad a byddwn yn cyhoeddi ein hymateb maes o law.

***Y Rhaglen Lywodraethu:***

59. Mae gennym ymrwymiad i sicrhau na fydd ffioedd mewn Prifysgolion yng Nghymru yn codi yn uwch na £4,000 heb iddynt allu dangos eu bod yn gwella profiad y myfyriwr ac yn ehangu mynediad. Cyflwynodd

Rheoliadau Ffïoedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011 y rheoliadau perthnasol dros lefelau ffioedd. Y gost sy'n gysylltiedig â'r Grant Ffioedd Dysgu i ddiogelu myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru rhag lefelau uwch o ddyledion yw £188 miliwn yn 2014-15 a £224 miliwn yn 2015-16. Mae diweddariad ar nifer y myfyrwyr sy'n derbyn cymorth ar gyfer ffioedd dysgu yn dod i law ac yn cael ei ddadansoddi'n rheolaidd. Mae grŵp defnyddwyr ystadegol technegol yn cyfarfod pob mis i ystyried yr wybodaeth ddiweddaraf ar gymorth i fyfyrwyr a'i effaith ar gyllidebau.

### *Costau Rhedeg CCAUC:*

| 2013-14 Cyllideb Atodol Mehefin 2013 £000 | 2014-15 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Ailddatgan) £000 | 2014-15 Newidiadau £000 | 2014-15 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 | 2015-16 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 | 2015-16 Newidiadau £000 | 2015-16 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2,768 | 2,768 | 0 | 2,768 | 2,768 | 0 | 2,768 |

60. Nid oes unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig i gyllideb costau rhedeg CCAUC. Mae'r gyllideb yn cynorthwyo gyda chostau rhedeg (staff a chostau gweithredol) Cyngor Cyllido Addysg Uwch yng Nghymru. Rydym wedi gwarchod cyllideb costau rhedeg CCAUC er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o adnoddau staff i gynnal y swyddogaethau newydd sy'n cael eu cynnig mewn deddfwriaeth sydd ar y gweill.

### *Er Mwyn Ein Dyfodol – Llinell Wariant Coleg Ffederal ac Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd:*

| 2013-14 Cyllideb Atodol Mehefin 2013 £000 | 2014-15 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Ailddatgan) £000 | 2014-15 Newidiadau £000 | 2014-15 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 | 2015-16 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|---|---|
| 31,400 | 31,400 | 904 | 32,304 | 30,498 |

61. Mae cyllideb Ar Gyfer Ein Dyfodol yn cynyddu £0.904 miliwn yn 2014-15 yn nhermau net o gymharu â 2013-14 ac yn gostwng £0.902 miliwn yn 2015-16. Mae'r gyllideb yn cynorthwyo gyda menter Blaenau'r Cymoedd, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chostau uno AU gan gynnwys Prifysgol newydd De Cymru. Mae CCAUC yn parhau i gefnogi datblygiad y Coleg a bydd yn monitro ac yn asesu datblygiad y sefydliad newydd i sicrhau bod yr uno yn rhoi'r gwerth gorau i ddysgwyr a'r economi yn yr ardal.

*Y Rhaglen Lywodraethu:*

62. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ein hymrwymiad i ddod ag AU i rai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig drwy sicrhau sefydlu Prifysgol menter Blaenau'r Cymoedd. Mae'r ymrwymiad hwn yn gysylltiedig nid yn unig â dod ag AU yn nes at y rhai a fyddai'n elwa fwyaf ohono, ond hefyd yn gysylltiedig ag adfywio calon ac enaid y gymuned. Mae cost o £2.5 miliwn ar gyfer 2014-15 yn gysylltiedig â'r ymrwymiad hwn. Yn ogystal â'r uchod, rydym wedi ymrwymo o hyd i barhau â'n cefnogaeth i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn ei hymgais i ddarparu trosolwg, rheolaeth a datblygiad annibynnol i addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Bydd CCAUC yn trafod canlyniadau a gwerth am arian y ddwy raglen.

***Llinell Wariant Dyfarniadau wedi'u Targedu:***

| 2013-14<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2013<br>£000 | 2014-15<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Ailddatgan)<br>£000 | 2014-15<br>Newidiadau<br>£000 | 2014-15<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| 9,454 | 9,454 | (78) | 9,376 | 9,004 |

63. Mae'r gyllideb ar gyfer Dyfraniadau wedi'u Targedu yn gostwng £0.078 miliwn yn nhermau net yn 2014-15 o gymharu â 2013-14, a £0.450 miliwn yn 2015-16. Mae'r gyllideb yn cynnal Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn a mân eitemau eraill o ran gwariant gan gynnwys Bwrsarïau Coleg Harlech a ddaw i ben yn 2015-16 yn dilyn argymhellion Adroddiad Hancock (2010). Bydd cyllideb y Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn yn parhau ar lefelau 2013 yn ystod 2014-15 a 2015-16 er mwyn rhoi cymorth i myfyrwyr sydd mewn angen gwirioneddol.

***Llinell Wariant Costau Gweinyddu y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi:***

| 2013-14<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2013<br>£000 | 2014-15<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Ailddatgan)<br>£000 | 2014-15<br>Newidiadau<br>£000 | 2014-15<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| 7,338 | 7,338 | 0 | 7,338 | 5,838 |

64. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cynnig ar gyfer y gyllideb hon yn 2014-15. Mae'r gyllideb yn gostwng £1.5 miliwn yn nhermau net yn 2015-16 o gymharu â 2013-14. Mae'r gyllideb yn ariannu'r ffioedd gweinyddu sy'n cael eu talu i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Brifysgol Agored i ddarparu'r cymorth statudol ar gyfer AU ac AB i fyfyrwyr yng Nghymru. Byddwn yn

gweithio gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu i fyfyrwyr. Bydd y cyllid ar gyfer moderneiddio Cyllid Myfyrwyr Cymru yn parhau heb ei effeithio a bydd y gwasanaeth newydd yng Nghyffordd Llandudno yn dechrau ym mis Mawrth 2014. Bydd gwerthusiad llawn o'r goblygiadau yn cael ei gynnal gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr unwaith y bydd y cyllidebau wedi'u cadarnhau.

65. O fewn cynlluniau y gyllideb, mae cyllideb benodol ar gyfer adnodd benthyciadau cynhaliaeth. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys y Ddarpariaeth Cyllideb Adnodd - nad yw'n arian parod - ar gyfer Benthyciadau Cynhaliaeth a Ffioedd. Dyma gymhorthdal y Llywodraeth ar gyfer darparu benthyciadau myfyrwyr.

## Llinell Wariant Cefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig

### *Grant Dysgu'r Cynulliad:*

| 2013-14 Cyllideb Atodol Mehefin 2013 £000 | 2014-15 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Ailddatgan) £000 | 2014-15 Newidiadau £000 | 2014-15 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 | 2015-16 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|---|---|
| 198,232 | 198,232 | (1,699) | 196,533 | 186,870 |

66. Mae'r gyllideb ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad yn gostwng £1.7 miliwn yn nhermau net yn 2014-15 o gymharu â 2013-14 ac £11.4 miliwn yn 2015-16. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyfrifon y rhaglen gymorth statudol i fyfyrwyr ar gyfer AU ac AB sy'n seiliedig ar alw. Mae'r gyllideb yn cefnogi Grantiau a Ffioedd Rhan-amser, Grantiau wedi'u Targedu y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, Grant Dysgu'r Cynulliad a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Bydd lefelau grant a throthwyon cymhwysedd yn cael eu rhewi ar gyfer holl grantiau cyllid myfyrwyr o 2014-15 tan 2016-17. Mae rhewi lefelau grant yn golygu y bydd y cymorth hwn yn parhau yn fforddiadwy o fewn y cynlluniau a gyhoeddir. Mae hyn yn cymryd y bydd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn parhau ar £30 yr wythnos. Bydd benthyciadau yn cael eu cynyddu yn unol â'r lefelau arfaethedig yn Lloegr.

### *Y Rhaglen Lywodraethu:*

67. Cafwyd datganiad yn y Rhaglen Lywodraethu y byddem yn cynnal ein hymrwymiad i roi cymorth ariannol i fyfyrwyr o gartrefi incwm isel drwy gynnal y lefelau cymorth presennol, gyda chyllideb o £196.5 miliwn yn 2014-15 a £186.9 miliwn yn 2015-16 o'r Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16. Rydym yn darparu cymorth ariannol sy'n dibynnu ar brawf modd i helpu pobl ifanc drwy ein Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gost a amcangyfrifir o £26 miliwn y flwyddyn a Grantiau Dysgu'r Cynulliad ar gyfer Addysg Uwch a Phellach a amcangyfrifir sy'n £128 miliwn y flwyddyn. Mae Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg Cymru yn

mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng incwm isel a chyfranogi isel drwy gynnig cymhelliad ariannol wythnosol (o £30 yr wythnos) i annog pobl ifanc, rhwng 16-19 mlwydd oed, o gartrefi incwm isel, i barhau mewn addysg llawn amser y tu hwnt i'r oedran ysgol gorfodol. Mae grantiau eraill wedi'u targedu ar gael, gan gynnwys y Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol, Grant Oedolion Dibynnol, Lwfans Dysgu i Rieni, a Lwfans i Fyfyrwyr Anabl gyda chyfanswm buddsoddiad o £6 miliwn yn 2014-15 a 2015-16 ar draws y cynlluniau hyn a £9 miliwn pellach ar gyfer Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn ym mhob blwyddyn.

**Y Ddarpariaeth ar gyfer Deddfwriaeth**

68. Mae disgwyl i'r Bil Addysg Bellach ac Uwch {Llywodraethu a Gwybodaeth} {Cymru} dderbyn Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2014. Mae'r Bil yn trosglwyddo pwerau penodol oddi wrth Weinidogion Cymru i sefydliadau addysg bellach. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i sefydliadau eu diddymu eu hunain a chael benthyg cyllid, heb i'r Gweinidog gymeradwyo'r peth. Mae gan y Bil ddarpariaethau hefyd i sefydlu dolen rhannu data gyda Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer gwirio incwm cartrefi, sy'n cael ei ddefnyddio i asesu ceisiadau am fenthyciadau a grantiau.

69. Amcangyfrifir y bydd i'r Bil oblygiadau ariannol o £77 mil y flwyddyn rhwng Llywodraeth Cymru a Sefydliadau Addysg Bellach, a gaiff ei dalu o gyllidebau costau rhedeg presennol Llywodraeth Cymru a'r cyllid presennol ar gyfer sefydliadau addysg bellach yn y Cam Gweithredu Addysg Ôl-16.

70. Bu i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ail-ddosbarthu Sefydliadau Addysg Bellach fel eu bod yn rhan o lywodraeth ganolog ac rydym yn ceisio newid y penderfyniad yn y Bil hwn. Os na chaiff y penderfyniad ei newid bydd yn cael effaith sylweddol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru ac Addysg Bellach, sy'n rhwystro i unrhyw arian dros ben gael ei drosglwyddo ac ar gyfartaledd yn lleihau swm y cyllid cyfalaf sydd ar gael o £20 miliwn.

71. Mae disgwyl i Fil Addysg Uwch {Cymru} arfaethedig gael ei gyflwyno ar ddechrau 2014. Bydd y Bil Addysg Uwch (Cymru) yn darparu fframwaith rheoleiddio cadarn ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) er mwyn sicrhau ansawdd addysg uwch, gofalu am iechyd ariannol darparwyr ac ansawdd eu darpariaeth, a'r broses o'u llywodraethu. Bydd hefyd yn gorfodi rheoli ffïoedd ac yn sicrhau cyfle cyfartal i'r rhai sy'n dechrau ar addysg uwch neu sy'n bwriadu gwneud hynny.

72. Y bwriad yw gweithredu'r cynigion ym mlwyddyn academaidd 2015/16. Mae costau'r Bil i gyd yn gysylltiedig â chostau gweinyddol o fewn CCAUC a chânt eu talu o'r cyllidebau a ddyrennir o'r Cam Gweithredu Addysg Uwch. Yn sgil y newidiadau a gaiff eu rhoi ar waith, bydd angen i CCAUC ailflaenoriaethu'r gwaith ac rydym wedi gwarchod cyllideb

costau rhedeg CCAUC o fewn y Cam Gweithredu i wneud y newidiadau hyn.

73. Cafodd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 gydsyniad Brenhinol ar 13 Mai 2009. Roedd hyn yn Fesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau darpariaeth ynghylch yr hawl i addysg plant yn y ddwy flynedd olaf o addysg orfodol a phobl ifanc sydd heb gyrraedd pedwar ar bymtheg oed; i sicrhau darpariaeth gan ysgolion a sefydliadau a gynhelir o fewn y sector addysg bellach am wasanaethau sy'n gysylltiedig ag addysg; i sicrhau darpariaeth ar gyfer datgelu gwybodaeth am y cwricwlwm; ac at ddibenion cysylltiedig.

74. Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol nac anuniongyrchol ar agweddau addysg a sgiliau y portffolio o ganlyniad i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Mae datblygu a gweithredu y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn cryfhau'r ddarpariaeth ym mesur 2009.

### Deddfwriaeth y DU

75. Rydym hefyd yn rhan o gynllun i fonitro nifer o Filiau y DU, sydd gennym ddiddordeb penodol ynddynt, fel adran. Mae'r rhain yn cynnwys; y Bil Dadreoleiddio; y Bil Addysg (Rhannu Gwybodaeth); y Bil Hawliau Defnyddwyr; y Bil Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Plismona; a'r Bil Plant a Theuluoedd. Rydym yn parhau i weithio gyda Whitehall i ddeall goblygiadau yr Adran, gan gynnwys effaith lawn y gyllideb, os oes unrhyw effaith o gwbl. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, rhagwelir mai ychydig iawn o gostau ychwanegol fydd, os o gwbl, a gellir eu talu o'r Prif Grŵp Gwariant os oes angen.

## Crynodeb

76. Cyflwynir Cyllideb Ddrafft yr Adran Addysg a Sgiliau ar gyfer 2014-15 i'r pwyllgor i'w hystyried.

Annex 1

| EDUCATION AND SKILLS MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **REVENUE BUDGET - Departmental Expenditure Limit** | | | | | | | |
| **SPA** | **Actions** | **Budget Expenditure Line (BEL)** | **2013-14 Supplementary Budget June 2013 £000** | **2014-15 Indicative Plans Final Budget (Restated) £000** | **2014-15 Changes £000** | **2014-15 New Plans Draft Budget £000** | **2015-16 New Plans Draft Budget £000** |
| **Education & Training Standards** | Literacy & Numeracy | Literacy & Numeracy | 7,512 | 7,512 | -476 | 7,036 | 6,197 |
| | | **ACTION Total** | **7,512** | **7,512** | **-476** | **7,036** | **6,197** |
| | Curriculum | 14-19 Learning in Wales | 15,759 | 15,759 | -5,518 | 10,241 | 8,000 |
| | | Foundation Phase | 101,051 | 101,051 | -1,300 | 99,751 | 99,751 |
| | | Curriculum & Assessment | 8,250 | 8,250 | 3,925 | 12,175 | 8,305 |
| | | **ACTION Total** | **125,060** | **125,060** | **-2,893** | **122,167** | **116,056** |
| | Teaching & Leadership | Teacher Development and Support | 19,849 | 20,049 | -2,200 | 17,849 | 17,849 |
| | | **ACTION Total** | **19,849** | **20,049** | **-2,200** | **17,849** | **17,849** |
| | Qualifications | Qualifications inc Welsh Bacc | 5,045 | 5,045 | 0 | 5,045 | 5,603 |
| | | **ACTION Total** | **5,045** | **5,045** | **0** | **5,045** | **5,603** |
| | Post- 16 Education | Further Education Provision | 451,531 | 455,732 | -42,201 | 413,531 | 414,319 |
| | | Work Based Learning | 126,608 | 126,608 | -7,300 | 119,308 | 121,308 |
| | | FE Policy Development | 666 | 666 | 400 | 1,066 | 1,066 |
| | | **ACTION Total** | **578,805** | **583,006** | **-49,101** | **533,905** | **536,693** |
| | Higher Education | HEFCW-Running Costs | 2,768 | 2,768 | 0 | 2,768 | 2,768 |
| | | Higher Education Revenue | 350,832 | 351,032 | -20,859 | 330,173 | 330,173 |
| | | Higher Education Receipts | -2,798 | -2,798 | 0 | -2,798 | -2,798 |
| | | For Our Future - Coleg Ffederal & UHOVI | 31,400 | 31,400 | 904 | 32,304 | 30,498 |
| | | HEFCW Depreciation | 82 | 82 | 0 | 82 | 82 |
| | | **ACTION Total** | **382,284** | **382,484** | **-19,955** | **362,529** | **360,723** |
| | Education Structures | Transformation | 2,943 | 2,943 | -2,693 | 250 | 0 |
| | | **ACTION Total** | **2,943** | **2,943** | **-2,693** | **250** | **0** |
| | Education Standards | School Effectiveness Grant | 32,101 | 35,035 | -4,468 | 30,567 | 32,067 |
| | | School Standards Support | 2,249 | 2,249 | -55 | 2,194 | 2,194 |
| | | **ACTION Total** | **34,350** | **37,284** | **-4,523** | **32,761** | **34,261** |
| | Pupil Deprivation Grant | Pupil Deprivation Grant | 36,780 | 38,246 | 33,000 | 71,246 | 34,246 |
| | | **ACTION Total** | **36,780** | **38,246** | **33,000** | **71,246** | **34,246** |
| | ICT & Information Management Systems | ICT & IMS Programme | 7,423 | 7,423 | 5,558 | 12,981 | 6,951 |
| | | **ACTION Total** | **7,423** | **7,423** | **5,558** | **12,981** | **6,951** |
| | Estate & IT Provision | Strategic Investment | 0 | 0 | 1,750 | 1,750 | 4,000 |
| | | **ACTION Total** | **0** | **0** | **1,750** | **1,750** | **4,000** |
| | | **SPA Total** | **1,200,051** | **1,209,052** | **-41,533** | **1,167,519** | **1,122,579** |

**Annex 1**

| SPA | Actions | Budget Expenditure Line (BEL) | 2013-14 Supplementary Budget June 2013 £000 | 2014-15 Indicative Plans Final Budget (Restated) £000 | 2014-15 Changes £000 | 2014-15 New Plans Draft Budget £000 | 2015-16 New Plans Draft Budget £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Skilled Workforce** | Employment & Skills | Employment & Skills | 25,157 | 26,512 | -6,715 | 19,797 | 24,157 |
| | | **ACTION Total** | **25,157** | **26,512** | **-6,715** | **19,797** | **24,157** |
| | Youth Engagement & Employment | Youth Engagement & Employment | 19,746 | 19,746 | -1,000 | 18,746 | 19,746 |
| | | **ACTION Total** | **19,746** | **19,746** | **-1,000** | **18,746** | **19,746** |
| | Educational & Careers Choice | Careers Wales | 30,000 | 30,000 | 500 | 30,500 | 27,000 |
| | | **ACTION Total** | **30,000** | **30,000** | **500** | **30,500** | **27,000** |
| | | **SPA Total** | **74,903** | **76,258** | **-7,215** | **69,043** | **70,903** |
| **Improving Wellbeing, Reducing Inequality & Increasing Participation** | Wellbeing of Children & Young People | Spec. Placements/Students with Learning Difficulties FEIs | 16,002 | 16,002 | 0 | 16,002 | 16,002 |
| | | School Based Counselling | 500 | 500 | 0 | 500 | 500 |
| | | Food & Drink in Schools | 3,050 | 3,185 | 0 | 3,185 | 3,185 |
| | | Additional Learning Needs | 3,296 | 3,296 | -500 | 2,796 | 3,046 |
| | | Post 16 Inclusion & Supp for Learning SEN | 0 | 24,440 | -24,440 | 0 | 0 |
| | | **ACTION Total** | **22,848** | **47,423** | **-24,940** | **22,483** | **22,733** |
| | Post-16 Learner Support | Assembly Learning Grant | 198,232 | 198,232 | -1,699 | 196,533 | 186,870 |
| | | SLC/HMRC Administration Costs | 7,338 | 7,338 | 0 | 7,338 | 5,838 |
| | | Maintenance Loans Res Budget Prov | 103,949 | 106,849 | 0 | 106,849 | 106,849 |
| | | Targeted Awards | 9,454 | 9,454 | -78 | 9,376 | 9,004 |
| | | **ACTION Total** | **318,973** | **321,873** | **-1,777** | **320,096** | **308,561** |
| | Pupil Engagement | Tackling Disaffection | 1,158 | 1,158 | 0 | 1,158 | 1,158 |
| | | Grants for the education of travellers children | 1,100 | 1,100 | 0 | 1,100 | 1,100 |
| | | Minority Ethnic Achievement Grant | 10,500 | 10,500 | -500 | 10,000 | 10,500 |
| | | **ACTION Total** | **12,758** | **12,758** | **-500** | **12,258** | **12,758** |
| | | **SPA Total** | **354,579** | **382,054** | **-27,217** | **354,837** | **344,052** |
| **Welsh Language** | Welsh in Education | Welsh Language Development Unit | 16,212 | 16,212 | -750 | 15,462 | 14,462 |
| | | **ACTION Total** | **16,212** | **16,212** | **-750** | **15,462** | **14,462** |
| | Welsh Language | Welsh Language | 8,864 | 8,864 | 50 | 8,914 | 9,049 |
| | | **ACTION Total** | **8,864** | **8,864** | **50** | **8,914** | **9,049** |
| | | **SPA Total** | **25,076** | **25,076** | **-700** | **24,376** | **23,511** |
| **Delivery Support** | Delivery Support | Strategic Communications | 1,483 | 1,483 | 0 | 1,483 | 1,483 |
| | | Education Research & Services | 2,566 | 2,566 | -900 | 1,666 | 1,566 |
| | | **ACTION Total** | **4,049** | **4,049** | **-900** | **3,149** | **3,049** |
| | | **SPA Total** | **4,049** | **4,049** | **-900** | **3,149** | **3,049** |
| **Education & Skills Revenue (including non-cash) DEL** | | | **1,658,658** | **1,696,489** | **-77,565** | **1,618,924** | **1,564,094** |

Annex 1

| SPA | Actions | Budget Expenditure Line (BEL) | 2013-14 Supplementary Budget June 2013 £000 | 2014-15 Indicative Plans Final Budget (Restated) £000 | 2014-15 Changes £000 | 2014-15 New Plans Draft Budget £000 | 2015-16 New Plans Draft Budget £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit** | | | | | | | |
| **Education & Training Standards** | Estate & IT Provision | General Support | 43,021 | 43,021 | 0 | 43,021 | 43,021 |
| | | Strategic Investment | 159,113 | 110,813 | 0 | 110,813 | 100,813 |
| | | **ACTION TOTAL** | **202,134** | **153,834** | **0** | **153,834** | **143,834** |
| | | **SPA Total** | **202,134** | **153,834** | **0** | **153,834** | **143,834** |
| **Education & Skills Capital DEL** | | | **202,134** | **153,834** | **0** | **153,834** | **143,834** |

| SPA | Actions | Budget Expenditure Line (BEL) | 2013-14 Supplementary Budget June 2013 £000 | 2014-15 Indicative Plans Final Budget (Restated) £000 | 2014-15 Changes £000 | 2014-15 New Plans Draft Budget £000 | 2015-16 New Plans Draft Budget £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **REVENUE & CAPITAL BUDGET - Annually Managed Expenditure** | | | | | | | |
| **Economic & Social Wellbeing & Reducing Inequality** | Post-16 Learner Support | Student Loans Capital AME | 264,130 | 285,702 | 30,936 | 316,638 | 361,489 |
| | | Student Loans Revenue AME | -87,261 | -102,553 | -6,001 | -108,554 | -129,627 |
| | | **ACTION Total** | **176,869** | **183,149** | **24,935** | **208,084** | **231,862** |
| | | **SPA Total** | **176,869** | **183,149** | **24,935** | **208,084** | **231,862** |
| **Skilled Workforce** | Educational & Careers Choice | Careers Wales | 0 | 0 | 6,000 | 6,000 | 6,000 |
| | | **ACTION Total** | **0** | **0** | **6,000** | **6,000** | **6,000** |
| | | **SPA Total** | **0** | **0** | **6,000** | **6,000** | **6,000** |
| **Education & Skills AME** | | | **176,869** | **183,149** | **30,935** | **214,084** | **237,862** |

| **Education & Skills MEG - SUMMARY** | 2013-14 Supplementary Budget June 2013 £000 | 2014-15 Indicative Plans Final Budget (Restated) £000 | 2014-15 Changes £000 | 2014-15 New Plans Draft Budget £000 | 2015-16 New Plans Draft Budget £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Revenue DEL | 1,658,658 | 1,696,489 | -77,565 | 1,618,924 | 1,564,094 |
| Capital DEL | 202,134 | 153,834 | 0 | 153,834 | 143,834 |
| **Total DEL** | **1,860,792** | **1,850,323** | **-77,565** | **1,772,758** | **1,707,928** |
| Annually Managed Expenditure | 176,869 | 183,149 | 30,935 | 214,084 | 237,862 |
| **Education & Skills** | **2,037,661** | **2,033,472** | **-46,630** | **1,986,842** | **1,945,790** |

Resource tables = The baseline used for Resource DEL in 2014-15 is as at Final Budget 2013-14, restated to reflect Ministerial portfolio changes as announced by the First Minister in March and adjusted to reflect recurrent baseline adjustments included in the First Supplementary Budget 2013-14. These baseline adjustments are set out in Annex D of the Draft Budget narrative.

Capital tables = The baseline used for Capital DEL in 2014-15 is as at Final Budget 2013-14, restated to reflect Ministerial portfolio changes as announced by the First Minister in March.